# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.00 – 10.46** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_16_07_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Paul Davies AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC** |
| Tystion: | **Peter Black AC, Comisiynydd**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC, Comisiynydd**<br>**Nicola Callow, Comisiwn y Cynulliad**<br>**Craig Stephenson, Comisiwn y Cynulliad**<br>**Dave Tosh, Comisiwn y Cynulliad** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones a chan Peter Black ar gyfer eitemau 1-5.**

## 2 Papurau i'w nodi

**2.1 Nodwyd y papurau.**

2.1 Y Bil Addysg Uwch (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (30 Mehefin 2014)

2.2 Ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol: Gwybodaeth ychwanegol gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

## 3 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhodri Glyn Thomas AC, Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am swyddogaethau a pholisi ieithoedd swyddogol y Comisiwn, gwasanaethau cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth, Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Comisiwn dros dro, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Nicola Callow, Pennaeth Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghylch cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15.

## 4 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad a chynaliadwyedd, Dave Tosh, Cyfarwyddwr TGCh, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Nicola Callow, Pennaeth Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghylch cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru): Goblygiadau Ariannol y Bil

6.1 Trafododd yr Aelodau y papur briffio ar y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), gan gytuno na fyddent yn gwahodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ateb cwestiynau ar oblygiadau ariannol y Bil

ar y cam hwn, ond y byddent yn ysgrifennu ati i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.
6.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, i nodi nad yw'r Pwyllgor Cyllid am wahodd y Gweinidog i un o gyfarfodydd y Pwyllgor ar y cam hwn, ond y byddai'n croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau ariannol y Bil.

## 7 Bil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru): Goblygiadau Ariannol y Bil

7.1 Trafododd yr Aelodau y papur briffio ar Fil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), gan gytuno na fyddent yn gwahodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ateb cwestiynau ynghylch goblygiadau ariannol y Bil, ond y byddent yn ysgrifennu ato i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.
7.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, i nodi nad yw'r Pwyllgor Cyllid am wahodd y Gweinidog i un o gyfarfodydd y Pwyllgor ar y cam hwn, ond y byddai'n croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau ariannol y Bil.

## 8 Ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, gan gytuno arno yn amodol ar rai mân newidiadau. Nodwyd y byddai'n cael ei gyhoeddi ar 24 Gorffennaf.